


## JONES, THOMAS ('Taliesin o Eifion '; 1820 - 1876), bardd



**Enw:** Thomas Jones  
**Ffugenw:** Taliesin O Eifion  
**Dyddiad geni:** 1820  
**Dyddiad marw:** 1876  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd  
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth  
**Awdur:** William Evans

Ganwyd 13 Medi 1820 yn Llanystumdwy, Sir Gaernarfon, yn fab i ŵr a enillasai fedal Trafalgar pan oedd yn aelod o'r gerddorfa ar fwrdd y Victory. Yn 1826 symudodd ei rieni i Langollen, lle, ar ôl derbyn addysg dda, y dilynodd 'Taliesin' grefft ei dad, 'plumber and decorator' yr ardal, a gwelwyd ôl ei law ar arwydd llawer tŷ tafarn. Dysgodd y gynghanedd yn ifanc, a'i weithiau cynganeddol yw ei bethau mwyaf poblogaidd. Yr oedd yn eisteddfodwr blaenllaw. Ei 'Frwydr Crogen' yw un o'r esiamplau cynharaf o ddrama fydryddol Gymraeg. Anfonasai awdl i eisteddfod Wrecsam, 1876, ond bu farw 1 Mehefin a gorchuddiwyd y gadair a ddyfarnwyd iddo mewn du. Dyna pam y sonnir amdano fel 'Bardd y Gadair Ddu.'

### Awdur

**Y Parchedig William Evans**, (1883 - 1968)

### Ffynonellau

J. Jones ('Myrddin Fardd'), *Enwogion Sir Gaernarfon* (1922), 214-7

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Jones (Taliesin o Eifion)

### Delweddau

LIGC: Tal o Eifion

LIGC: Thomas Jones 'Taliesin o Eifion'

### Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MSS 9615-9627: Taliesin o Eifion Manuscripts

VIAF: 278028798

Wikidata: Q20734488

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Evans, W., (1953). JONES, THOMAS ('Taliesin o Eifion'; 1820 - 1876), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-THO-1820>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LG  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION

